# Cymorth i fywyd gwyllt Aber Dyfrdwy gan gymunedau arfordirol

13/10/2021



Llun gan Katherine Wade

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaer am dderbyn grant o £540,000 ar gyfer prosiect cadwraeth sy'n dod â chymunedau yng Ngogledd Cymru a Gogledd Lloegr ynghyd.

Bydd y prosiect yn ysbrydoli pobl sy'n byw yng Nghilgwri ac yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych i amddiffyn bywyd gwyllt Aber Dyfrdwy.

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaer wedi gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol ar

ddwy lan yr aber i ddylunio ystod o weithgareddau sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt. Mae'r rhain yn cynnwys dehongli'r aber trwy sain, ysgrifennu creadigol a chelf. Bydd diwrnodau hyfforddi ymwybyddiaeth arfordirol yn paratoi cymunedau i amddiffyn adar rhydio, gan gynnwys cynllun bathodyn ar gyfer lleoliadau cyfeillgar i rydwyr.

> Mae'r cyllid hwn yn golygu y gall pobl leol chwarae eu rhan wrth ddiogelu'r bywyd gwyllt sylweddol ac amrywiol sydd gan Aber y Ddyfrdwy.
>
> *David Renwick, Cyfarwyddwr, Gogledd Lloegr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

Bydd cyfres o ddigwyddiadau dros dro yn codi ymwybyddiaeth o faterion llygredd a sut y gall pobl weithredu i greu amgylchedd d?r glân.

Yn ogystal, bydd cyfleoedd gwirfoddoli ar gael i ymuno ag arolygu bywyd gwyllt yr arfordir a thasgau cadwraeth ymarferol, gan ganiatáu i bobl leol gysylltu â'r aber a gwella eu hiechyd a'u lles eu hunain.

A hefyd, bydd rhaglen Hyfforddi Athrawon Aber Dyfrdwy hefyd yn ennyn diddordeb plant yng Nghymru a Lloegr.



Adar yn hedfan dros Aber Dyfrdwy gan Robin Rowe

Dywedodd David Renwick, Cyfarwyddwr, Gogledd Lloegr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "O siarad hefo chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydyn ni'n gwybod bod natur yn hynod o bwysig iddyn nhw,

rhywbeth sydd ddim ond wedi'i ddwysáu yn ystod y 18 mis diwethaf.

"Mae'r cyllid hwn yn golygu y gall pobl leol chwarae eu rhan wrth ddiogelu'r bywyd gwyllt sylweddol ac amrywiol sydd gan Aber y Ddyfrdwy."

## Buddsoddi mewn natur ledled Gogledd Lloegr

Rydym wedi cefnogi bron i 1,000 o brosiectau tirwedd, parciau a chadwraeth natur ledled Gogledd Lloegr - buddsoddiad o dros £480 miliwn - ers 1994.

[Darganfyddwch fwy am rai o'r prosiectau rydyn ni wedi'u hariannu yng Ngogledd Lloegr.]



## rdeb hefyd mewn ...



**[yn eich prosiect treftadaeth]**

**[Cronfa Rhwydweithiau Natur: £7.2 miliwn i amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd]**



Photo credit: Stephen Maxwell

## RSPB NI set to reopen nature reserves thanks to emergency funding